*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Jonathan Blyde, Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2025/26 i aelodau Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Adran 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi asesiad o berfformiad yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol wedi'r flwyddyn ariannol dan sylw.

3 Mae darpariaeth yn Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol o'u cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

## SYLWADAU GAN DÎM ARWEINYDDOL Y GWASANAETH

4 Gofynnwyd am fân ddiwygiadau i'r geiriad a'r fformatio drwy'r ddogfen, ac mae'r rheiny wedi'u gwneud.

## ARGYMHELLIAD

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) **nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer cyfnod 2025/26; ac yn**

ii) **cymeradwyo Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26 i gael ei adolygu a'i ystyried gan yr Awdurdod Tân ac Achub cyn ei gyhoeddi ar y wefan.**

**CEFNDIR**

6 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn hunanasesiad o’r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gwelliant (Mesur 2009) a Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) y flwyddyn flaenorol.

7 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub hyblygrwydd i ddewis sut y byddant yn adrodd ar eu perfformiad, ond er mwyn sicrhau cysondeb o ran adrodd ac atebolrwydd, argymhellir bod pob adroddiad yn cynnwys:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r ATA wedi’u defnyddio er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, fel sydd wedi’i nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Asesiad cryno o farn yr ATA ynghylch ei lwyddiant wrth fodloni ei amcanion gwella, fel sydd wedi’u nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Datganiad o berfformiad ar sail yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol, p'un a ydynt yn ymwneud â’r amcanion gwella yn uniongyrchol neu beidio;

- Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau cymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;

- Asesiad o berfformiad trwy gymhariaeth â pherfformiad yr ATA mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrff cyffelyb eraill (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;

- Manylion am y ffyrdd y mae'r ATA wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gynnwys manylion ynghylch a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac

- Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr ATA o ganlyniad i unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur i’r ATA hwnnw yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

## GWYBODAETH

8 Mae dyluniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu dyluniad 'Ein 5 Egwyddor', ac mae'n gyson â dyluniad Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024–25

9 Gan mai dyma'r ail flwyddyn o bum blynedd y cynllun, mae trosolwg o'r cynnydd a wnaed dros oes y cynllun wedi'i gynnwys ynghyd â'r diweddariad blynyddol ynghylch cynnydd.

10 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |